**PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** — **1af MAWRTH 2017**

# RHAGLEN

**DATGAN BUDDIANNAU**

**Atgoffir yr Aelodau'n barchus bod angen iddynt ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.**

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

**2. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – IONAWR 2016**

Derbyn adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

**3. DIWYGIO LLYWODRAETHU YSGOLION: FFRAMWAITH RHEOLEIDDIO**

Ymhellach i gofnod rhif 130 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Chwefror 2017, derbyn adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig) mewn perthynas â newidiadau sy'n cael eu hystyried ar gyfer penodi Llywodraethwyr Ysgolion.

**4. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – YSGOL BABYDDOL NEWYDD ARFAETHEDIG YN Y RHYL**

Cydnabod bod yr ymgynghoriad uchod (dolen i'r ddogfen isod) wedi dechrau a phenderfynu ar ymateb y Cyngor Tref.

www.denbighshire.gov.uk/consultations

**5. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – CAU'R ALI AR Y BRIFFORDD YN CYFFINIO 16 AQUARIUM STREET, Y RHYL**

Ymateb i'r ymgynghoriad uchod a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ddinbych (copi'n amgaeëdig).

**6. EITEMAU GWYBODAETH GAN YR AELODAU**

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain sydd wedi eu cytuno gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

**7. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

## 8. CYTUNDEB TELEDU CYLCH CYFYNG

Derbyn adroddiad cyfrinachol gan gynrychiolydd apwyntiedig y Cyngor Tref ar y bartneriaeth Teledu Cylch Cyfyng (copi'n amgaeëdig).

## 9. DATBLYGIAD ARFAETHEDIG AR Y PROMENAD

Derbyn adroddiad cynnydd cyfrinachol (os yn briodol).

## 10. EITEM SEFYDLOG: GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Mewn perthynas â Chofnod Rhif 79 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, ystyried unrhyw geisiadau gan Heddlu Gogledd Cymru (manylion i'w dosbarthu yn y cyfarfod os oes angen).

## 11. TERFYNU'R CYFARFOD

Y Cadeirydd i ddirwyn y cyfarfod i ben.